

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

15 Chwefror 2019

Ystafell y Cyngor

10.00 – 1.00

Presennol:

Rhodri Glyn Thomas (Llywydd)
Gwilym Dyfri Jones
Iwan Davies

Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Hugh Thomas
Yr Arglwydd Aberdâr

Eleri Twynog Davies
Richard Houdmont

Tîm Gweithredol:

Linda Tomos
David Michael
Pedr ap Llwyd

Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd
Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd

Hefyd yn bresennol:

Carol Edwards
Paul Jackson
Doug Jones
Nia Wyn Dafydd
Mary Ellis
Peter Owen

Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cofnodydd)
Cyngor Partneriaeth
Cyngor Partneriaeth
Cyngor Partneriaeth
MALD
MALD

1.1 Croeso'r Llywydd a Sylwadau Agoriadol

Croesawodd y Llywydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Nododd fod yr amser wedi dod i ffarwelio â Linda Tomos yn swyddogol, gan mai dyma fyddai ei chyfarfod Bwrdd olaf. Heb os, mae Linda wedi trawsnewid sefyllfa'r Llyfrgell ers iddi gyrraedd, gan gyflawni dau beth - mae Linda wedi cyflwyno gweledigaeth glir iawn at y dyfodol, a'i dyfalbarhad hi sydd i gyfrif am y llwyddiant i gael cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Brosiect yr Archif Ddarlledu Genedlaethol. Yn ail, mae ymwneud Linda gyda'r staff â rhandaliad sy'n cysylltu gyda'r Llyfrgell i'w ganmol, a hyn sydd yn gyfrifol hefyd am y berthynas well sydd nawr yn bodoli gyda'r undebau yn lleol ac yn genedlaethol.

Diolchodd Linda am eiriau caredig y Llywydd, gan nodi ei bod yn ffrainc cael gweithio gyda staff mor arbennig, a diolchodd yn arbennig i Pedr ap Llwyd, David Michael a Carol Edwards am sicrhau cydweithio mor dda fel tîm. Nododd hefyd ei diolch i Mary Ellis, MALD am y berthynas dda sy'n bodoli rhwng y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru. Dymunodd Linda yn dda i bawb wrth iddi baratoi i adael y Llyfrgell, a oedd yn ei thyb hi, yn un o gyrff pwysicaf Cymru.

Aeth y Llywydd ymlaen i adrodd fod y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon wedi ymweld â'r Llyfrgell y diwrnod blaenorol, ac am i'r Llywydd basio ei ddiolchiadau i'r Ymddiriedolwyr am y ffordd maent wedi delio gyda'r trafodaethau yn ymwneud â'r Archif Ddarlledu Cenedlaethol mor broffesiynol. Roedd y Dirprwy Weinidog yn gwerthfawrogi'n fawr iawn nad oedd unrhyw ddatganiad cyhoeddus wedi ei wneud ynglŷn â'r sefyllfa ond yn hytrach fod deialog wedi parhau i ddigwydd rhwng y ddwy garfan.

Erbyn hyn, mae'r Dirprwy Weinidog wedi cadarnhau mewn llythyr ei gefnogaeth i'r prosiect ac wedi caniatáu'r £1m o arian cyfalaf.

Cafwyd pleidlais i benderfynu os dylid bwrw ymlaen i gyflwyno cais ffurfiol Rownd 2 i Gronfa Treftadaeth y Loteri, a chafwyd pleidlais unfrydol y dylid bwrw ymlaen i gyflwyno'r cais; bydd rhaid gwneud hyn erbyn 5ed Fawrth 2019. Er nad oeddent yn medru bod yn bresennol, roedd Steve Williams a Dyfrig Jones wedi gohebu gyda'r Llywydd i nodi eu bod hwythau yn hapus i gefnogi bwrw ymlaen i gyflwyno'r cais.

1.2 Penodi Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd – cadarnhau'n ffurfiol enwebiad y Panel Enwebiadau

Datganodd y Llywydd fod y panel a fu'n cyfweld ar 12 Rhagfyr yn unfrydol eu barn y dylid penodi Pedr ap Llwydd yn olynedd i Linda Tomos fel Prif Weithredwr a Llyfrgellydd. Cadarnhawyd y penodiad yn unfrydol gan yr holl Ymddiriedolwyr.

Diolchodd y Llywydd i'r Ymddiriedolwyr hynny oedd yn bresennol yn y cyflwyniadau ar 12 Rhagfyr, sef Gwilym Dyfri Jones, Hugh Thomas, Richard Houdmont, Iwan Davies a Susan Davies am eu hadborth i'r panel.

Diolchodd Pedr i'r Ymddiriedolwyr am eu cefnogaeth a'u hymddiriedaeth, gan nodi ei fod yn falch i dderbyn y swydd. Mae Pedr yn edrych ymlaen at barhau gyda'r gwaith ardderchog sydd yn cael ei gyflawni gan Linda ac i gydweithio gyda'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru i sicrhau fod y Llyfrgell yn parhau i fynd o nerth i nerth.

1.3 Ymddiheuriadau

Cofnodwyd ymddiheuriadau gan Liz Siberry, Dyfrig Jones a Steve Williams.

1.4 Datgan Buddiannau

Datganodd y Llywydd ei fod yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd Gardd Fotaneg Cymru.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Richard Houdmont fudd fel tiwtor cysylltiol gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1.5 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 23 Tachwedd a thrafod materion sy'n codi

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 23 Tachwedd fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd, yn amodol ar ychwanegu buddiannau Gwilym Dyfri Jones.

Cynigiwyd y cofnodion gan Hugh Thomas a'u cymeradwyo gan Iwan Davies.

1.5.1 Brexit

Nododd David Michael y gall Brexit effeithio ar gadwynau cyflenwi yn y tymor byr ac mae'r Llyfrgell wedi cychwyn stocio eitemau fyddai'n angenrheidiol i gadw'r adeilad ar agor e.e. deunydd glanhau. Gall hefyd effeithio ar y rhaglen waith cyfalaf e.e. tariffs a mewnfurio deunydd adeiladu. Mae cyngor cyfreithiol sydd wedi ei dderbyn yn amau y bydd codiad ym mhrisiau tariffs all olygu y byddai deunyddiau adeiladu yn gorfod aros yn Calais, a gallai hyn ychwanegu at yr amserlen adeiladu.

Mae un aelod o staff y Llyfrgell yn dod o'r UE ac mae'r Rheolwr Adnoddau Dynol mewn cyswllt rheolaidd gyda'r aelod hynny i roi cymorth a chyngor iddynt.

Nodwyd hefyd y gall fod problemau ynglŷn â rhannu gwybodaeth. Gall y DU anfon gwybodaeth i wledydd yr UE ond mae trefniadau ar gyfer anfon gwybodaeth yn ôl yn parhau'n aneglur, a gall fod angen gosod canllawiau rhannu data mewn lle.

Mi fydd y Llywydd a Linda Tomos yn cyfarfod gydag Alun Cairns AS a Nick Bourne AS ar 5ed Mawrth, ac yn trafod sefyllfa'r Llyfrgell ar ôl Brexit gyda nhw.

1.6 Pwyntiau gweithredu o gyfarfod 23 Tachwedd

Y cyfan wedi eu gweithredu.

Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth neu benderfyniad

2.1 Prosiect yr Archif Ddarlledu

Fe nodwyd uchod fod y Llyfrgell bellach wedi derbyn llythyr gan y Dirprwy Weinidog yn cefnogi'r prosiect ac yn caniatáu'r £1m o arian cyfalaf, ac yn sgil hynny, cytunodd y Bwrdd yn unfrydol y dylai'r Llyfrgell gyflwyno cais ar gyfer Rownd 2 i Gronfa Treftadaeth y Loteri. Roedd y Bwrdd yn gwerthfawrogi'r trafodaethau fu'n digwydd gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Archif, ac am ddiolch yn benodol i Peter Owen a Mary Ellis am eu cymorth yn hwyluso rhannu gwybodaeth gyda'r Gweinidog.

Nododd Peter Owen ei fod yn falch i gefnogi'r prosiect, a bod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi hanfod y prosiect, sef ymgysylltu â'r cyhoedd. Pryder y Dirprwy Weinidog oedd y medrai'r prosiect greu problemau ariannol tymor hir i'r Llyfrgell, felly mae'r newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r cais yn rhai i'w croesawu. Roedd Peter hefyd yn falch o nodi fod Mary Ellis wedi ei gwahodd i fod yn aelod o Fwrdd Prosiect yr Archif Ddarlledu Genedlaethol.

Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r prosiect yn ddibynnol ar rai amodau, a gellir gweld y rhain yn y llythyr. Un o'r amodau yw;

“bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cadarnhau y byddant yn talu'r costau refeniw ychwanegol o redeg yr Archif Ddarlledu Genedlaethol ar ôl 2024 gan ddefnyddio cronfeydd preifat anghyfyngedig y Llyfrgell os na ellir nodi dulliau eraill”.

Cytunodd y Bwrdd yn unfrydol i gadarnhau eu bod yn hapus i weithredu yn unol â'r amod yma.

Nododd Pedr ap Llwyd ei bod yn deg felly gofyn i Lywodraeth Cymru ein cefnogi i geisio cyllid i ariannu'r codiad cyflog, tra nododd y Llywydd fod y Dirprwy Weinidog wedi cytuno i siarad gyda'r Prif Weinidog ynglŷn â'r 3.5% o godiad cyllid sydd wedi ei addo i'r Llyfrgell.

Adran 3 Gwybodaeth a Diweddariadau

3.1 9fed Fforwm Rhyngwladol Llyfrgell Shanghai

Mynychwyd y Fforwm yma gan y Llywydd a Douglas Jones, Rheolwr Prosiectau Casgliadau Cyhoeddedig y Llyfrgell. Thema'r Fforwm oedd "Llyfrgelloedd i Bawb: Tuag at Gymdeithas Fwy Clyfar a Chynhwysol". Cyflwynodd y Llywydd bapur, "Tu Hwnt i'r Muriâu Yma: Llyfrgell Genedlaethol i Gymru" oedd yn trafod nifer o'r themâu allweddol, yn enwedig y defnydd o dechnolegau digidol i wneud casgliadau'r Llyfrgell yn fwy hygyrch i'n defnyddwyr yng Nghymru ac ar draws y byd. Roedd yr ymweliad yn gyfle i ddatblygu ymhellach bartneriaeth y Llyfrgell gyda Llyfrgell Shanghai, a thrafodwyd y posibilrwydd o gynnal asesiad o'r gweithiau Tsieineaidd sy'n rhan o gasgliad Hawkes a'r posibilrwydd o ddatblygu prosiect i greu cofnodion ar-lein i'r casgliad ac i ddigido rhan o'r casgliad. Mae trafodaethau bellach wedi cychwyn, ac Mi fydd Doug Jones yn darparu diweddariad ar y gwaith yma i'r Bwrdd mewn cyfarfod at y dyfodol.

Mi fydd Ysgrifennydd Clwb Cymru Siapan, Bet Davies, yn ymweld â'r Llyfrgell ym mis Mawrth, a gobeithio y bydd y Llyfrgell yn medru cymryd rhan yn y gweithgareddau fydd yn digwydd o fis Medi ymlaen pryd y bydd Blwyddyn Cymru Siapan yn cychwyn. Bwriedir cynnal cyngerdd yn y Drwm o gerddoriaeth Siapaneaidd ac arddangosfa o Gasgliad Hawkes i gyd-fynd â Gŵyl Ffilmiau Prifysgol Cymru. Mi fydd manylion pellach yn cael eu cynnwys yn rhaglen o weithgareddau'r Hydref. Mae ymgyrch Brydeinig hefyd i blannu coed ceirios Siapaneaidd gydag ysgolion anabledd dysgu ac mi fydd y Llyfrgell yn cofrestru ar gyfer bod yn rhan o'r ymgyrch.

3.2 Datgloi ein Treftadaeth Sain

Cyflwynwyd papur er sylw'r Ymddiriedolwyr sy'n amlinellu prosiect mwyaf diweddar y Llyfrgell. Mae hon yn brosiect pum mlynedd sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a'i arwain gan y Llyfrgell Brydeinig. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar ddigido a chadwraeth recordiadau sain prin ac unigryw, y rhai sydd o dan fygythiad o ddirywiad ffisegol, a'r rhai sydd mewn perygl o'u colli oherwydd nad yw'r peiriant chwarae ar gael bellach. Sefydlwyd deg Canolfan Rhwydweithio Cadwraeth Sain ar draws y Deyrnas Unedig, a'r Llyfrgell yw'r unig ganolfan yng Nghymru. Nodwyd fod y prosiect yma'n alinio gyda phrosiect yr Archif Ddarlledu, ac felly o bwys mawr i'r Llyfrgell.

3.3 Y Gen Hydref – Rhagfyr 2018

Mae'r adroddiad yma'n rhoi darlun o weithgaredd y Llyfrgell yn ystod Hydref – Rhagfyr 2018. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau gan yr Ymddiriedolwyr, ond roeddent yn falch iawn o dderbyn adroddiad mor raenus.

3.4 Cynllun Gweithredu Hydref - Rhagfyr 2018

Mae'r adroddiad yma yn adrodd ar gyflawniad y Llyfrgell yn erbyn ei thargedau yn y Cynllun Gweithredol am y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2018. Eto, roedd yr Ymddiriedolwyr yn falch i nodi'r cynnydd sydd wedi ei gyflawni yn erbyn y targedau. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau ar y cynnwys.

3.5 Codi Arian

Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn gosod allan gweithgareddau ac ymgyrchoedd presennol codi arian y Llyfrgell, a'r camau nesaf y gellid eu hystyried i ehangu ar hyn ac i roi proffil uwch i weithgaredd codi arian yn y Llyfrgell.

Awgrymwyd y dylid ffurfio Grŵp Tasg a Gorffen i edrych ar hyn ac i adrodd yn ôl i'r Bwrdd. Cytunodd Richard Houdmont i gadeirio'r Grŵp, ac mi fydd yr Arglwydd Aberdâr ac Eleri Twynog Davies yn ymuno gyda'r Grŵp ar ran yr Ymddiriedolwyr, ac mi fydd Pedr ap Llwyd yn cynrychioli'r Tîm Gweithredol. Roedd Richard hefyd yn awyddus i ofyn i Phil Cooper ymuno, ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad i hyn.

Adran 4 Materion Ariannol

4.1 Cyfrifon Rheoli hyd at ddiwedd Rhagfyr 2018

Cyflwynwyd y cyfrifon gan David Michael a nododd nad oedd unrhyw bryderon y dylid tynnu sylw atynt. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau gan yr Ymddiriedolwyr.

Adran 5 Adroddiadau o Bwyllgorau

5.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Ymgynghorol Adeiladau a gyfarfu 11.01.19

Nodwyd fod y mater ynglŷn â'r asbestos yn parhau, a bod y mater bellach yn nwylo cyfreithwyr y Llyfrgell. Mi fydd adroddiad llawn ar ddatblygiadau yn cael ei gyflwyno i gyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd. Mae'r Llywydd a'r Trysorydd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am drafod hyn i Hugh Thomas a Liz Siberry, cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Ymgynghorol Adeiladau, a nododd yr Ymddiriedolwyr eu bod yn hapus gyda'r trefniant yma.

Adran 6 Materion y Llyfrgellydd

6.1 Digwyddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi 05.03.19

Mi fydd y derbyniad yn digwydd ar 5 Fawrth, ac mae tua 50 o wahoddedigion wedi cadarnhau eu presenoldeb ar y noson. Mi fydd yr Arglwydd Aberdâr yn agor y noson ac yn croesawu pawb ac yn cyflwyno Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru; disgwylir hefyd y bydd Rhodri Glyn Thomas a Linda Tomos yn siarad ar y noson.

Mi fydd eitemau o gasgliad effemera Llyfrgell hefyd yn cael eu harddangos ynghyd â gwefan o Gartwnau Illingworth.

Adran 7 Materion y Llywydd

7.1 Apwyntiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 12 Mawrth; mi fydd cyfweiliadau ar gyfer swydd yr Is Lywydd ar 30 Ebrill, ac ar gyfer yr Ymddiriedolwyr ar 1 - 3 Mai. Rhagwelir y bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau ar eu dyletswyddau ar 1 Gorffennaf 2019. Mi fydd y swyddi'n cael eu hysbysebu'n eang ar y cyfryngau cymdeithasol, yn y wasg, a thrwy dargedu unigolion.

7.2 Aelodaeth Pwyllgorau

Bwriadwyd i Carol Edwards gyflwyno papur i'r cyfarfod yma ar gyfansoddiad a chylch gorchwyl y pwyllgorau, ond mae Pedr ap Llwyd wedi gofyn am fwy o amser i ystyried y mater yma ymhellach cyn gwneud unrhyw argymhellion i'r Bwrdd.

Serch hynny, mae angen un aelod i ymuno gyda'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol, gan mai tri aelod sydd, a tri yw'r isafswm sydd ei angen i gael cworwm. Awgrymodd y Trysorydd y dylai'r Is Lywydd newydd, pan fydd ef/hi wedi ei benodi/phenodi ymuno gyda'r Pwyllgor yma, a chytunodd yr Ymddiriedolwyr gyda'r awgrym yma. Hyd nes bydd penodiad wedi ei wneud, gofynnodd y Llywydd i un o'r Ymddiriedolwyr gytuno i fynychu cyfarfod mis Ebrill o'r Pwyllgor, gan roi gwybod i Carol cyn gynted â phosib.

7.3 Ymddiriedolwyr y Bwrdd Cynllun Pensiwn

Er bod tymor Susan Davies fel Ymddiriedolwr wedi dirwyn i ben ddiwedd Rhagfyr 2018, mi roedd Susan hefyd yn Ymddiriedolwr ar y Bwrdd Cynllun Pensiwn, ac yn dilyn caniatâd gan y Llywydd, wedi mynychu cyfarfod o'r Bwrdd Cynllun Pensiwn yr wythnos flaenorol. Gofynnwyd felly i'r Ymddiriedolwyr os oeddent yn fodlon i Susan barhau yn ei rôl fel Ymddiriedolwr y Bwrdd Cynllun Pensiwn - cynigiwyd hyn gan Hugh Thomas, ac fe'i heiliwyd gan Iwan Davies.

7.4 Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus

Mynychodd y Llywydd a Pedr ap Llwyd gyfarfod o'r Fforwm yng Nghasnewydd ar 31 Ionawr, ond nid oes dim mwy i'w ychwanegu at yr hyn a adroddwyd gan Julia Douch yn ei chyflwyniad i'r Ymddiriedolwyr yn gynharach yn y cyfarfod. Roedd yr aelodau wedi mynegi diddordeb i gynnal cyfarfod nesaf y Fforwm yn y Llyfrgell ym mis Mehefin, ond teimlwyd na fyddai hyn yn ymarferol oherwydd y gwaith adeiladu fydd yn digwydd ar y pryd. Bydd gwahoddiad yn cael ei estyn i'r Fforwm gynnal cyfarfod yn y Llyfrgell ar adeg arall.

Adran 8 Unrhyw fater arall

8.1 Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Awgrymodd y Llywydd y dylai'r papur yma gael ei drafod gan y Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn ei gyfarfod ym mis Ebrill; mae'r papur eisoes wedi ei gylchredeg ac mae'r Trysorydd wedi derbyn sylwadau gan yr Aelodau.

8.2 Cyllideb 2019 – 2020

Cyflwynwyd y gyllideb i sylw'r Ymddiriedolwyr, ac roeddent yn hapus i gymeradwyo'r gyllideb am 2019 - 2020.

8.3 Grant Pwrcasu

Gan fod cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cynllunio Ariannol oedd i'w gynnal ar 1 Chwefror wedi ei ohirio, cyflwynir y papur yma i sylw'r Bwrdd llawn am gymeradwyaeth. Mae'r Grant Pwrcasu blynyddol wedi ei ddefnyddio erbyn hyn, felly gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo rhyddhau £100k o'r cronfeydd wrth gefn i alluogi prynu eitemau os bydd rhai yn dod ar y farchnad cyn diwedd mis Mawrth. Cytunwyd i ganiatáu hyn tan ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

8.4 Repertory

Cyflwynodd Pedr ap Llwyd bapur yn amlinellu prosiect pwysig iawn i'r Llyfrgell, sef Repertory Dr Daniel Huws - y gwaith awdurdodol ar lawysgrifau Cymreig sydd i'w gyhoeddi yn 2020. Gofynnir i'r Bwrdd ystyried cefnogi'r prosiect trwy ganiatáu cymorth ariannol am chwe mis i gyflogi ymchwilydd i gynorthwyo Dr Daniel Huws i gwblhau'r tasgau syn weddill. Mae'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd eisoes wedi talu am chwe mis.

Mae Gwasg Prifysgol Cymru wedi cytuno i gyhoeddi'r tair cyfrol. Rhagwelir y bydd 150 copi o'r gwaith ar gael ar sail model tanysgrifio gyda phris gwerthiant o thua £500.

Mae cynhadledd ryngwladol wedi ei threfnu yn barod ynghyd â digwyddiad yn y Llyfrgell. Mi fydd Pedr yn cyfarfod gyda Gwasg Prifysgol Cymru ddydd Llun i drafod y cyhoeddi, a'r gobaith yw na fydd unrhyw gost ychwanegol i'r Llyfrgell, ond y bydd modd denu digon o noddwyr a thanysgrifiadau.

Gofynnodd y Trysorydd i Pedr baratoi papur ar sicrwydd i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol a'r Bwrdd ynglŷn â hyn, ac ar sail hynny, roedd yr Ymddiriedolwyr yn hapus i gymeradwyo'r cais.

8.5 Gwerthusiad Allanol o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr

Mi fydd hwn yn cael ei osod fel eitem ar agenda cyfarfod mis Ebrill.

8.6 Casgliad Mumph

Mae cryn ddiddordeb gan wleidyddion yn y casgliad dyma, ac mae nifer wedi awgrymu y dylai'r Llyfrgell ei brynu. Mae'r Llyfrgell yn parhau i drafod y pris gyda'r cartwnydd Malcolm Humphries ac mi fydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol a'r Bwrdd ar hyn yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Llywydd a'r Trysorydd. Roedd yr Ymddiriedolwyr yn hapus i'r Llyfrgell barhau i drafod gyda'r cartwnydd.

8.7 Portread Elin Jones, Llywydd y Cynulliad

Mae'r Llyfrgell wedi cytuno i brynu portread o Lywydd y Cynulliad, Elin Jones, AC gan yr artist David Griffiths. Mae'n fwriad gwahodd Elin yma i ddadorchuddio'r llun mewn seremoni yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

8.8 Llyfr Coch Hergest

Mae adroddiad ar gyfleoedd masnachol yn deillio o ddiwedd Llyfr Coch Hergest wedi ei baratoi, a'r casgliad yw nad yw hyn yn ymarferol, gan fod y prosesau mor gymhleth ac mi fyddai'r gost yn aruthrol o uchel. Serch hynny, cydnabyddir y gall hyn fod yn ddichonadwy ar gyfer eitemau eraill at y dyfodol. Cymhlethdod arall yw mai nid y Llyfrgell sydd yn berchen yr hawlfraint ar y gwaith byddai'n rhaid felly ymgynghori gyda'r perchennog hawlfraint a rhannu costau ac ati.

**** DIWEDD Y CYFARFOD ****